

26/05/2023

Annwyl riant/gofalwr,

Wrth i ni symyd at wyliau hanner tymor y Sulgwyn hoffwn eich diweddarau ar ddatblygiadau yn yr ysgol a rhannu rhai dyddiadau allweddol gyda chi.

Adolygu Arholiadau TGAU dros y Sulgwyn.

Da iawn i flynyddoedd 10 ac 11 sydd wedi dechrau eu harholiadau TGAU ac sy'n gweithio'n galed i baratoi ar gyfer pob arholiad. Mae hyn i eich atgoffa y byddwn yn cynnal rhaglen adolygu dros wyliau'r Sulgwyn. Mae disgyblion wedi derbyn y rhaglen ac os ydych yn rhiant neu'n ofalwr i ddisgybl ym mlynnyddoedd 10 neu 11, gwnewch bob ymdrech i sicrhau bod eich plentyn/plant yn mynychu pob un o'r dosbarthiadau adolygu sy'n berthnasol iddynt. Mae'r rhaglen hefyd i'w gweld ar ein tudalennau facebook neu drwy ddilyn y ddolen isod.

https://ysgolbrogwaun.com/media/2165/ks4-may_june-revision-timetable.png

Grwpiau Disgyblion Blwyddyn 8.

Mae rhieni disgyblion blwyddyn 8 wedi derbyn llythyr yn ddiweddar yn amlinellu ein bwriad i ailstrwythuro grwpiau tiwtor Blwyddyn 8 ar ôl gwyliau'r Sulgwyn. Cysylltwch â'r swyddfa os nad ydych wedi derbyn y llythyr hwn.

Bydd yr ailstrwythuro yn effeithio ar rai, ond nid pob disgybl. Mae yna nifer o resymau da dros gwneud hyn, gan gynnwys:

- Sicrhau bod disgyblion yn cael eu grwpio'n briodol ar gyfer dechrau gwaith TGAU y bydd llawer o bynciau yn dechrau dysgu ym mis Medi;
- Sicrhau bod dilyniant ieithyddol disgyblion mewn perthynas â'r Gymraeg yn cael ei gefnogi'n briodol;
- Gwneud y grwpiau'n fwy cyfartal o ran niferoedd disgyblion;
- Sefydlu deinameg gweithio cadarnhaol o fewn grwpiau.

Nodwch fod disgyblion eisoes yn cael eu dysgu mewn gwahanol grwpiau addysgu ar gyfer pynciau craidd fel Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Ni fydd y rhain yn rhan o'r broses ail-grwpio hon a byddant yn aros yn ddiglyfnewid.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Mrs Emma Bowen (Emma.bowen@ysgolbrogwaun.com) yn y lle cyntaf.

Presenoldeb.

Mae'n bwysig bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn er mwyn cael y gorau o'r addysg a ddarperir. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn mynychu'n dda ac mae ein canlyniadau TGAU yn adlewyrchu'n agos ein cyfraddau presenoldeb da. Mae ein cyfradd presenoldeb ysgol gyfan ar hyn o bryd bron yn 92%, ac er ei fod yn ddarlun sy'n gwella, a'n bod yn cymharu'n dda ag ysgolion eraill, mae hyn yn dal yn is na'r lefelau cyn-bandemig. Rydym yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud i dargedu absenoldebau cyson rhai disgyblion a byddwn yn parhau i atgoffa pob rhiant/gofalwr a'u plentyn/plant o bwysigrwydd presenoldeb da. A fydddech cystal â'n cefnogi i sicrhau bod eich plentyn/plant yn gwneud pob ymdrech i fynychu'r ysgol.

Offer.

Yn anffodus, rydym yn gweld bod nifer o ddisgyblion nid yn dod ag offer fel beiros, pensiliau a phrenau mesur i'r ysgol. Mae offer sylfaenol fel hwn yn gwbl angenrheidiol i sicrhau bod disgyblion yn gallu chwblhau'r gwaith gosod ac i sicrhau eu bod yn perfformio hyd eithaf eu gallu. Gofynnwn yn garedig i chi wneud yn siwr bod gan eich plentyn/plant yr offer angenrheidiol yn rheolaidd.

Dyddiadau allweddol ar gyfer yr hanner tymor nesaf.

Dydd Llun Mai 29ain – Wythnos Hanner Tymor y Sulgwyn

Dydd Llun Mehefin 5ed – Disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol

Dydd Gwener Gorffennaf 7fed – Diwrnod HMS ychwanegol – dim ysgol i ddisgyblion

Dydd Gwener 21 Gorffennaf – Diwrnod olaf y tymor

Yn dilyn hanner tymor y Sulgwyn, bydd Blwyddyn 9 yn dechrau gyda'u hamserlen opsiynau TGAU.

Yn olaf, pob lwc i bob un o'n disgyblion sy'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd wythnos nesaf yn Llanymddyfri!

Diolch am eich cefnogaeth barhaus. Dymunwn Sulgwyn diogel a phleserus i chi.

Paul Edwards